

'FY NGHYFEILLION ANWYL': Apêl Anghyffredin

gan EMYR WYN JONES

DEISYFIAD ffyddlon fy nghalon ydoedd ar bob amser ychwanegu happusrwydd dynolryw, ac yrydwyf yrwrhon yn tystio nad oes gennyf ddim bwriad arall yn eich annerch chwi yn y modd yma, ond i ddangos fy ewyllys da tu ag attoch.

Chwi y glywsoch yn ddiammeu am y modd newydd yr arferir impio Brech y Fuwch, ac fel y galloch ganfod y manteision anferth sydd yn deilliaw oddiwrt hynny, myfi y ymgniaf i'w dangos hwynt i chwi.

Y mae'r saldra perthynol iddi mor ysgafn nad yw prin yn peri awr o afiechyd . . .

Dyna'r llinellau agoriadol o hen bamffledyn a ddaeth i'm llaw yn ddiweddar. Roedd yn amlwg ar yr olwg gyntaf ei fod yn dra diddorol, ac yn awr ar ôl cryn dipio o bendroni drosto rwy'n tybio ei fod, o bosibl, yn unigryw erbyn hyn. Mae'r argrafflen sengl, sy'n agos at faint dalen A4 ein dyddiau ni, mewn cyflwr eithaf bregus, ei hymylon braidd yn ddrylliedig a chrychlyd, a threigl y blynyddoedd wedi melynau ei gwedd. Yn ansodus mae twll hirgrwn yn y canol sy'n mesur 3cm x 1.5cm, oherwydd y modd y plygwyd y ddalen yn y gorffennol.

Cnewyllyn y ddogfen yw apêl gyhoeddus yn Gymraeg, dalen o bropaganda os mynner, ac y mae'n sicr y dosbarthwyd hi'n rhad. Yr amcan oedd gwaredu'r trigolion rhag erchyllterau'r Frech Wen trwy iddynt ymroi i dderbyn 'impiad', sef buch-frechiad, mewn da bryd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym oll wedi bod yn gyfarwydd â phropaganda cynyddol yn tarddu o amrywiol ffynonellau. Dogfennau ffurfiol ac amheronol eu naws ydynt fel rheol, ac, fel y disgwyliad, mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn Saesneg. Felly, profiad amheuthun oedd dod o hyd mor annisgwyl i ddogfen iechydol wedi ei anelu at y derbynydd mewn dull hynaws ac union-gyrchol, a hynny yn Gymraeg, gyda'r cyfarchiad deniadol — 'Fy Nghyfeillion Anwyl'.

Gofal am roi'r ffeithiau — ac y mae'n siŵr o'i ffeithiau — a'u rhoi mewn dull rhwydd ddealladwy, graslonrwydd wrth eu cyflwyno a chynghor ymarferol i gloi'r drafodaeth, dyna sy'n nodweddiadol o waith awdur yr hen argrafflen. Mae'n pwysleisio egwyddorion sylfaenol ac yn tanlinellu'r peryglon o'u hanwybyddu. Ei ddatganiad hyderus oedd fod y driniaeth, sef impiad neu fuchfrechiad, yn ddiogel ac yn effeithiol. Dyma rai

o'i frawddegau:

Y mae'r saldra perthynol iddi mor ysgafn, nad yw prin yn peri awr o afiechyd . . . Gellir ei rhoddi hi ar y plentyn ieuangaf yn ddiaberygl . . . Nid oes dim canlyniad drwg iddi . . . Y mae yn rhwystr siccr i'r Frechwen . . . Nid yw yn gadael na nodau na chreithiau, ond un graith ydyw y cwbl oll a welir ar ei hol hi . . .

Am ganrifoedd dirifedi bu'r frech wen yn ymestyn yn ysbeidiol o'r cyfnod C.C. i rannau cang o'r byd, fel llifeiriant dinistriol gan adael galanastra enbyd yn ei ôl. Mae'r hanes yn ddigon adnabyddus am filwyr Cortes yn cario'r haint i'r America ac o ganlyniad yn difodi'r brodorion a dinistrio eu diwylliant. Yr un canlyniad alaethus a ddaeth i ran yr Indiaid Cochion pan aeth y dyn gwyn — a'r frech wen gydag ef — dros Iwerydd i sefydlu'r trefedigaethau cynnar. Ond nid yr ymddangosiadau ar lwyfan cyfandirol, na hyd yn oed ym Mhrydain, sydd dan sylw yma. Y sefyllfa yng Nghymru bron ddwy ganrif yn ôl a enynnodd y diddordeb presennol.

Nid dyma'r lle chwaith i drafod yn fanwl hanes 'darganfyddiad' Edward Jenner o rinweddau brechu, oblegid mewn gwirionedd estyniad oedd ei gyfraniad ef, i archwilio a chadarnhau yr hen ddull gwerinol o weinyddu brechiad a oedd mewn bodolaeth ymhell cyn ei amser ef. Amcan y drafodaeth hon yw sôn am yr argrafflen fel cyfraniad yn Gymraeg i'r ymdrech o gyfyngu ar ymlediad yr haint. Gwneir ymdrech hefyd i geisio penderfynu pwy oedd yr awdur na welodd yn dda argraffu ei enw arni, ac yn olaf fe ddilyniar ambell drywydd cyfochrog a pherthnasol.

Fel y gwelir wrth droed yr argrafflen nodir y ffaith mai 'Broster, Printer, Bangor' oedd yr argraffwr. Nid oes awgrym pwy oedd y cyhoeddwr. Mae'r manylion am 'deulu hynafol a pharchus' y Brosteriaid i'w cael yn bur fanwl yng nghyfrif Ifano Jones — *A History of Printing and Printers in Wales*. Ymddengys fod y teulu wedi bod yn argraffwyr yng Nghaerllion Fawr o amser y Tuduriaid ac wedi dal swyddi dinesig pwysig yno, megis Siryf a Maer, o dro i dro. Ym 1807, ar ôl cyfnod maith o argraffu yng Nghaer yn unig, agorodd John, mab Peter Broster, gangen o'r busnes yng Mangor, gyda bwriad o lansio'r *The North Wales Gazette*. Daeth y rhifyn cyntaf allan o'r wasg yn Ionawr 1808 —

'y newyddiadur cyntaf i'w argraffu yng Ngogledd Cymru'. O 1817 ymlaen roedd y busnes yng ngofal Charles Broster, ond ym mhen deng mlynedd fe'i trechwyd ef gan anawsterau ariannol. Daeth John Brown, cyn-fforman, i'r adwy a chyn diwedd 1827 daeth adfywiad i'r *Gazette* dan enw newydd — *The North Wales Chronicle*. Cyn gadael Broster dyma, efallai, yw'r lle priodol i gynnig llythrennau coll i lenwi'r twll yng nghalon y ddalen: g(lefyd blin ars)wydus; y mae'r (dull a gynig)ir trwy impiad; yn p(ara'n hir y)n aml, ac yn olaf — eu dwyn (ymaith) ganddo).

Erbyn hyn mae rhuthriadau enbyd y frech wen yng Nghymru wedi cilio bron yn llwyr i dir anghofrwydd. Y trawiad diweddaraf yma oedd yn nechrau Chwefror 1962 pan oedd yr haint ar gerdded ym Mro Morgannwg a'r cymoedd cyfagos. Er i nifer o'r dioddefwyr gollu eu bywydau fe lwyddwyd i gadw'r sefyllfa dan reolaeth, ac ymhen tri mis roedd yr haint wedi cilio'n llwyr. Ar y llaw arall, ac i fynd yn ôl at gyfnod yr argrafflen, roedd y frech wen yn gyffredin iawn ym Mhrydain a miloedd yn marw, a llawer mwy yn dwyn y creithiau — yn enwedig ar eu hwynebau — am y gweddill o'u hoes. O ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen daeth yr arferiad o frechu yn dderbyniol ac yn gynyddol boblogaidd, a'r amcan hwnnw oedd tu ôl i'r ymdrechion cyhoeddus — y propaganda — i'w boblogeiddio. Ond fel gyda phob ymdrech iechydol o'r fath roedd y lliaws yn fodlon anwybyddu'r arweiniad — felly hefyd eto yn ein dyddiau ni. Y gwir yw fod y weithred o frechu yn hen iawn yn y Dwyrain Canol ac yn India, ac fe ddywedir fod arferiad cyffelyb wedi bod yn gyffredin am genedlaethau lawer yn Sir Benfro ac yn yr hen Sir Fynwy. Yn ystod y ddeunawfed ganrif ymledodd yr arferiad o frechu yn araf ledled Cymru.

Yn fyr, y dull a ddefnyddid i roi amddiffyn rhag y frech wen oedd gosod crawn oddi ar groen dioddefydd ar groen y derbynydd, ac yna grafu trwy'r grawn nes tynnu ychydig o waed. Canlyniad bwriadol y driniaeth oedd i'r derbynydd ddatblygu ffurf ddiuied o'r haint, ac i'r cyflwr hwnnw ei waredu rhag y math ffymig — ac efallai angheuol — o'r salwch. Roedd y dull hynafol yma yn bur effeithiol, ond nid oedd gwarant ei fod yn llwyddiannus yn ddi-

feth. Ar ben hynny roedd yna berygl i'r archoll, er mor arwynebol ydoedd, droi'n wenwynig. Nid oedd egwyddorion gwrth-heintiol a bacterioleg mewn bodolaeth yr adeg honno. Ar rai achlysuron roedd adwaith cyffredinol a chorfforol y derbynydd i'r brechiad yn ddigon anhyfryd dros dro, ond nid cynddrwg o bell ffordd â'r frech wen ei hunan.

Ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif daethpwyd o hyd i well ffordd o amddiffyn rhag y frech wen. Roedd yn wybyddus ers amser maith nad oedd llaethferch a gafodd frech y fuwch yn cael y frech wen yn ddiweddarach, ac o sylweddoli arwyddocâd hyn dechreuwyd ar y dull o fuchfrechu — rhoi'r gowpog, ar lafar gwlad. Mantais y drefn newydd oedd gallu osgoi cymhlethdodau'r hen drefn, ac yn ogystal sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y driniaeth. Yn ystod y cyfnod arbennig yma roedd cyfraniadau Edward Jenner, 'meddyg yn Swydd-Gaerloyw', o bwysigrwydd sylfaenol, ond fel y soniwyd eisoes nid dyma'r achlysur i'w trafod.

Fel rhan o'r ymgyrch i ddiddymu'r frech wen roedd newyddiaduron y cyfnod yn cyhoeddi apeliadau yn argymhell ar i bawb dderbyn 'y drefn newydd'. Fe welir enghraifft dda o'r gweithgarwch yma, yn briodol iawn, yn y *North Wales Gazette* ym 1808. Yr awgrym oedd 'i'r ddiwion ym Mangor gael eu buchfrechu yn ddiymdroi ac yn rhad, gan ychwanegu "Duw lwyddo'r gwaith"'. Er gwaethaf ymdrechion o'r fath araf iawn oedd ymateb y cyhoedd, ac o ganlyniad roedd ymosodiadau mynych o'r frech wen yn digwydd yng Nghymru, yn enwedig yn yr ardaloedd diwydiannol a phoblog. Ond nid oedd y parthau gwledig chwaith yn ddiogel.

Ymgais i'r un perwyl, ond ar raddfa leol a phersonol bron, oedd yr argrafflen Gymraeg, a'i chylchrediad fe ymddengys wedi ei gyfyngu i ddinas Bangor a'r cyffiniau. Nid yw union amseriad ei hymddangosiad ar gael, ond priodol yw awgrymu'r fwyddyn 1823 oherwydd mae'n wybyddus y bu Hiracl, rhan o'r ddinas, dan lach y frech wen y fwyddyn honno. Roedd y fath achlysur yn symbyliad digonol i'r awdur. Bu ymosodiad arall o'r haint yng Nghaerllion Fawr y fwyddyn ddilynol. Bu raid aros hyd draean olaf y ganrif cyn i'r sefyllfa gyffredinol newid er gwell. Roedd y gweliannus yn ddi-